**CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER***

**WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* 11.12.20**

Llawer o ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod wrth i ni addasu ein trefniadau cyrraedd a gadael yr ysgol unwaith eto a hynny oherwydd y gwaith adeiladu a chyfyngiadau COVID. Mae llwyddiant pob gweithdrefn yn dibynnu ar eich cydweithrediad parod chi, a gwyddom y byddwch yn ein cefnogi ymhob ffordd posib yn ystod y cyfnod anodd a dyrys hwn.

*Once again, you are warmly thanked for your co-operation as we have adapted our morning and afternoon arrangements again, due to the building work and COVID restrictions. The success of every procedure depends on your co-operation, and once again, we know that you will support us in any way possible during this difficult time.*

## GWAITH ADEILADU – *BUILDING WORK.*

Mae hwn yn dod yn ei flaen yn arw gyda rhan fawr o'r buarth wedi'i dyrchu er mwyn dechrau adeiladu yr estyniad a fydd yn cael ei gysylltu gyda phen ucha'r adeilad presennol. Bydd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dechrau defnyddio'r drws newydd sy'n arwain i ddosbarth Mr Rh. Jones o fore Llun nesaf ymlaen.

*This is going ahead well with a large part of the yard being dug up in order to build the extension which will in time be connected to the present building. From next Monday morning, Years 5 and 6 pupils will start using the new door leading to Mr Rh. Jones' class.*

## CINIO NADOLIG – *CHRISTMAS LUNCH.*

Cafodd pawb oedd yn dymuno cael un, ginio Nadolig blasus iawn ddydd Mercher. Mwynhawyd y wledd a ddarparwyd gan staff y gegin yn fawr iawn, a diolchir iddynt yn gynnes am eu gwaith yn paratoi fel hyn ar ein cyfer mewn cyfnod sydd mor anodd.

*Everyone who wished to have one, had a delicious Christmas lunch on Wednesday. The meal, prepared by the kitchen staff, was much enjoyed, and they are warmly thanked for their hard work during this difficult time.*

## PERFFORMIAD NADOLIG RHITHIOL – *VIRTUAL CHRISTMAS PERFORMANCE.*

Yn ystod pnawn Mercher, cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 gyfle i weld a mwynhau sioe Nadolig rithiol gan Tudur Phillips ac Anni a Megan Llŷn. Mewn cyfnod lle nad yw'n bosib mynd i weld perfformiadau byw ar lwyfan, bu'n brofiad pleserus iawn i'r disgyblion hyn.

Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael cyfle i weld sioe rithiol hefyd yr wythnos nesaf.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ein bwriad yw i wneud y Nadolig eleni eto mor gofiadwy ag sydd bosib i'n disgyblion er gwaethaf yr amgylchiadau anodd sydd ohoni ar hyn o bryd.

*During Wednesday afternoon, Key Stage 2 pupils had an opportunity to see and enjoy a virtual Christmas performance by Tudur Phillips, Anni and Megan Llŷn. During a time when it's not possible to see performances on stage, it was a pleasurable experience for the pupils.*

*Foundation Phase pupils will have an opportunity to see a virtual show next week also.*

*As has been previously noted, it is our intention to make Christmas as memorable a time as possible for our pupils again this year, despite the present difficult times.*

## DIWRNOD SIWMPERI NADOLIG – *CHRISTMAS JUMPERS DAY*

Roedd yr ysgol yn fôr o liw heddiw gan fod pawb yn edrych mor wych yn eu siwmperi Nadolig. Fel canlyniad i'r diwrnod, llwyddwyd i gasglu £220 tuag at Gronfa Achub y Plant.

*The school was very colourful today, with everyone looking so wonderful in their Christmas jumpers. As a result, we were successful in collecting £220 towards the Save the Children fund.*

## GWISG NADOLIGAIDD – *CHRISTMAS CLOTHES.*

Yn ystod yr wythnos nesaf, gofynnir i'r disgyblion ddod i'r ysgol mewn siwmper/dillad Nadoligaidd ar y diwrnod y byddent fel arfer yn cymryd rhan yn eu sesiynau chwaraeon os gwelwch yn dda – yn hytrach na'u gwisg Addysg Gorfforol, fel a ganlyn:

Dydd Llun/*Monday* – Blwyddyn/*Years* 1 & 2

Dydd Mawrth/*Tuesday* – Blwyddyn/*Years* 3 & 4

Dydd Mercher/*Wednesday* (yn lle dydd Gwener– *instead of Friday)* – Blwyddyn/*Years* 5 & 6

*During next week, the pupils are asked to come dressed in a Christmas jumper/clothes on the day that they would normally be participating in games/sporting activities – instead of their P.E. kit. The days are shown above.*

## DIM CŴN – *NO DOGS.*

Atgoffir pawb yn garedig NA chaniateir i gŵn (ar wahan i gŵn tywys), ddod ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg.

*Everyone is kindly reminded that dogs (apart from guide dogs) are NOT allowed on the school site at any time.*

## SGWTERI – *SCOOTERS.*

Os yw eich plant yn dod i'r ysgol ar eu sgwteri, gofynnir iddynt ddod oddi arnynt unwaith y byddant wedi cyrraedd ar dir yr ysgol os gwelwch yn dda – er mwyn osgoi cael damwain neu daro yn erbyn eraill sydd o gwmpas yr ysgol yr un pryd.

*If your children come to school on a scooter, they are asked to disembark once they arrive on the school grounds please – to avoid accidents or bumping into those entering or leaving the school at the same time.*

## CYFNOD HUNAN YNYSU – *SELF ISOLATION DAYS.*

O ddydd Iau, Rhagfyr 10fed., fe'n hysbyswyd yn swyddogol bod y cyfnod angenrheidiol ar gyfer hunanynysu wedi lleihau i **ddeg niwrnod**.

*We have been officially informed that from Thursday, December 10th., the period of self isolation has been decreased to **ten days.***

## WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK.*

Fe'ch hatgoffir am y llythyr sydd wedi'i anfon atoch heddiw yn nodi bod yr ysgol hon, fel pob ysgol gynradd arall yn y sir, yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig **ddydd Mercher nesaf, Rhagfyr 16eg.,** gyda'r dysgu yn symud ar lein ar gyfer dydd Iau a dydd Gwener. Bydd Hwb Gofal ar gael yn yr ysgol i ddisgyblion sydd â dau riant sy'n weithwyr allweddol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau brys), neu un gweithiwr allweddol yn y meysydd hyn mewn cartref un rhiant.

*You are reminded of the letter sent out to you today regarding the fact that this school, like all the primary schools in Flintshire will be closing for the Christmas holiday **next Wednesday, December 16th.,**with on line learning on Thursday and Friday. There will be a Resilience Hub in school for those pupils where both their parents are key workers in health, social care and emergency services or one key worker in these categories in a single parent home.*

**MWYNHEWCH Y PENWYTHNOS A CHADWCH YN DDIOGEL BAWB – *ENJOY THE WEEK END AND KEEP SAFE EVERYONE.***

